

Berfenw + Arddodiaid

Cam-ddewis arddodiaid

Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl rhai berfau:

Ystyriwch y berfenwau hyn: *gwrando*
cyfrannu
dweud

Pan ychwanegwn ar, at ac wrth, rydym yn ffurfio uned neu ymadrodd arbennig.

Gwrando ar > Gwrandawaf ar y radio heno.

Cyfrannu at > Cyfrennwch at yr achos.

Dweud wrth > Dywedodd wrthi fod y llyfr yno.

Yn aml, rydym yn clywed:

Rwyf am ysgrifennu i'r pennaeth.

A oedd y cynllun yn apelio iddi?

Ond mae'r rhain yn **anghywir!**

Dyma'r ffurfiau cywir:

Rwyf am ysgrifennu at y pennaeth.

A oedd y cynllun yn apelio ati?ô

Ysgrifennu at rywun ac apelio at rywun sy'n gywir.

Llyfr defnyddiol: *Pa Arddodiad?* gan D. Geraint Lewis (2003)

Dyma rhestr wirio ichi er mwyn sicrhau eich bod yn defnyddio'r arddodiaid cywir

Noder – Byrfoddau - Abbreviations

(rhb) rhywbeth	(rb) rywbeth
(rhyn) rhywun	(rn) rywun
(rhl) rhywle	(rl) rywle

AT

agosáu <u>at</u> rb/rl/rn	Rydym yn agosáu <u>at</u> ddiwedd y tymor.
anfon <u>at</u> rn	Anfonwyd parcel <u>ati</u> ddoe.
apelio <u>at</u> rn	Roedd y cynlluniau yn apelio <u>atom</u> .
cofio <u>at</u> rn	Cofia ni <u>at</u> y teulu.
cyfeirio <u>at</u> rb/rn	Rhaid cyfeirio <u>at</u> y pwynt hwnnw.
cyfrannu <u>at</u> rb	Mae'n braf cael cyfrannu <u>at</u> les y gymuned.
dychwelyd <u>at</u> rb/rn	Penderfynodd ddychwelyd <u>at</u> ei wreiddiau.
nesáu <u>at</u> rb/rl/rn	Wrth ichi nesáu <u>at</u> y dref, fe welwch arwydd.
troi <u>at</u> rb/rn	Cofiwch droi <u>at</u> eich tiwtor am gymorth
tynnu sylw <u>at</u> rb/rn	Hoffwn dynnu eich sylw <u>at</u> yr amryfusedd.
ychwanegu <u>at</u> rb	Byddwn yn ychwanegu <u>atynt</u> cyn bo hir.
ysgrifennu <u>at</u> rn	Ysgrifennwch <u>atynt</u> i sicrhau lle.

AM

aros <u>am</u> rb/rn	Arhoswch <u>amdanaf</u> wrth y drws.
cofio <u>am</u> rb	Ydych chi'n cofio <u>am</u> y cyngerdd?
disgwyl <u>am</u> rb/rn	Roeddwn i'n disgwyl <u>am</u> alwad ffôn.
sôn <u>am</u> rb/rn	Cofiwch son <u>am</u> y peth yfory.

AR

blino <u>ar</u> rb	Blinais <u>ar</u> ddisgwyl am y gwaith
bodloni <u>ar</u> rb	Bydd yn rhaid i ti fodloni <u>ar</u> y sefyllfa. (cael eich plesio gan)
cael gwared <u>ar</u> (â) rb	Byddaf yn cael gwared <u>ar</u> yr hen nodiadau.
cefnu <u>ar</u> rb/rl/rn	Cefnodd <u>ar</u> y coleg a mentro i'r byd mawr.
diflasu <u>ar</u> rb	Mae'n hawdd diflasu <u>ar</u> areithiau hir.
edrych <u>ar</u> rb	Cofiwch edrych <u>ar</u> y rhaglen. (syllu <u>ar</u> rb)
effeithio <u>ar</u> rb/rn	Effeithiwyd <u>ar</u> bawb gan ei agwedd anaeddfed.
gweiddi <u>ar</u> rn	Peidiwch â gweiddi <u>ar</u> y plant.
gwrando <u>ar</u> rb/rn	Rhaid gwrando <u>ar</u> y darlithydd.
meddu <u>ar</u> rb	Mae hi'n meddu <u>ar</u> ddawn gyfathrebu wych.
sylwi <u>ar</u> rb/rn	Sylwodd <u>arni</u> 'n dawnsio.

AR (+ Enwau ac ansoddeiriau)

bod yn annibynnol <u>ar</u> rb/rn	Gweithiwch yn annibynnol <u>ar</u> eich gilydd.
agwedd <u>ar</u> rb	Dysgwyd agweddau gwahanol <u>ar</u> y pwnc.
esboniad <u>ar</u> rb	Mynnodd gael esboniad <u>ar</u> y digwyddiad anffodus.
beirniadaeth <u>ar</u> rb	Roedd ei feirniadaeth <u>ar</u> y llywodraeth yn hollol ddilys.
eglurhad <u>ar</u> rb	ni chafwyd eglurhad <u>ar</u> y mater.

WRTH

Yr arddodiad wrth sy'n dilyn y berfau a ganlyn:

Dweud <u>wrth</u> rn am rb	Dwedais <u>wrtho</u> am gofio'r rheol.
glynu <u>wrth</u> rb	Roedd yn glynu <u>wrth</u> ei ddaliadau..
(bod yn) garedig wrth rn	Roedd yn garedig wrtho pan ddechreuodd ei gwrs.

Sylwch hefyd ar yr arddodiaid sy'n cael eu defnyddio isod:

cael rhb gan rn > Welsoch chi'r llythyr a gafodd gan ei fam?

rhannu rhb yn ddwy (ran) > Rhannwyd y gynulleidfa yn ddwy (ran).

Defnyddio'r arddodiad 'â /ag'.

â o flaen cytsain / ag o flaen llafariad

Siaradwch â'ch tiwtor cyn gynted â phosib.
Rwyf ti wedi cytuno ag ef ar y pwynt.

SYLWCH! Mae â yn achosi Treigladau Llaes.
e.e. Peidiwch â phoeni am y peth.

Bydd llawer o ferfau sy'n dechrau a 'cy -' yn dilyn y patrwm hwn:

cyd-fynd <u>â</u> / <u>ag</u>	Nid oedd hi'n cyd-fynd <u>â</u> chynlluniau Mr Jones.
cydweithio <u>â</u> / <u>ag</u>	Cydweithiaf yn hapus <u>ag</u> ef.
cyfarfod/cwrdd <u>â</u> / <u>ag</u>	Cyfarfu <u>â</u> 'r rhai a ddymunai wneud y cwrs.
cymharu <u>â</u> / <u>ag</u>	Rhaid cymharu ein canlyniadau <u>â</u> 'r hyn sy'n digwydd mewn sefydliadau eraill.
cysylltu <u>â</u> / <u>ag</u>	Cysylltwch <u>â</u> 'r trefnydd!
cyd-dynnu <u>â</u> / <u>ag</u>	Mae'r myfyrwyr yn dda am gyd-dynnu <u>â</u> 'i gilydd.
cytuno <u>â</u> / <u>ag</u>	Nid oeddwn yn cytuno <u>â</u> chynrychiolydd y cwmni.
cystadlu <u>â</u> / <u>ag</u>	Byddaf yn cystadlu <u>â</u> hi am yr anrhydedd.

peidio <u>â</u> / <u>ag</u>	Peidiwch <u>ag</u> esgeuluso'ch gwaith.
methu <u>â</u> / <u>ag</u>	Methodd <u>â</u> chanolbwyntio ar y gwaith.
siarad <u>â</u> / <u>ag</u>	Siaradodd <u>ag</u> amryw o arbenigwyr cyn penderfynu.
ymdrin <u>â</u> / <u>ag</u>	Mae'r daflen yn ymdrin <u>â</u> hawliau myfyrwyr.
ymweld <u>â</u> / <u>ag</u>	Arferai ymweld <u>ag</u> ef yn aml.
ymwneud <u>â</u> / <u>ag</u>	Mae hyn yn ymwneud <u>â</u> diogelwch.
ymyrryd <u>â</u> / <u>ag</u>	Ni ddylai ymyrryd <u>â</u> chynlluniau'i thad.
ymuno <u>â</u> / <u>ag</u>	Rhaid ymuno <u>â</u> 'r Urdd cyn cystadlu.